

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

### Y BIL YMOSODIADAU AR WEITHWYR Y GWASANAETHAU BRYD (TROSEDDAU)

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y gellir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Bil Aelod Preifat yw'r Bil Ymosodiadau ar Weithwyr y Gwasanaethau Bryd (Troseddau) (y "Bil") a gyflwynwyd gan Chris Bryant AS yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Gorffennaf 2017. Mae'r Bil yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth y DU. Gellir dod o hyd i'r Bil hwn fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus yn:

[Dogfennau'r Bil — Bil Ymosodiadau ar Weithwyr y Gwasanaethau Bryd \(Troseddau\) 2017-19 — Senedd y DU](#)

#### Amcanion polisi

3. Mae'r Bil yn ceisio gwella diogelwch i weithwyr y gwasanaethau bryd drwy gadarnhau'r gyfraith pan fo troseddau penodol yn cael eu cyflawni yn eu herbyn. Mae hefyd yn ceisio rhoi mwy o sicrwydd i weithwyr y gwasanaethau bryd, a hynny yn gyflymach, ynghylch a ydynt wedi dal clefyd heintus ai peidio o ganlyniad i'r ymosodiad hwnnw.

#### Crynodeb o'r Bil

4. Bydd y Bil yn cadarnhau'r gyfraith pan fo troseddau penodol yn cael eu cyflawni yn erbyn gweithwyr y gwasanaethau bryd drwy greu fersiwn waethgedig newydd o'r drosedd bresennol o ymosodiad cyffredin neu guro pan fo'n cael ei chyflawni yn erbyn gweithiwr y gwasanaethau bryd. 12 mis o garchar fydd y gosb uchaf wedi'i chynyddu (6 mis o garchar yw'r gosb uchaf bresennol).
5. Bydd yn creu ffactor gwaethgol statudol ar gyfer ymosodiadau eraill a throseddau cysylltiedig yn erbyn gweithwyr y gwasanaethau bryd, fel ABH, GBH a dynladdiad. Bydd y ffactor gwaethgol hwn yn teilyngu dedfryd fwy difrifol ond nid yw'n cynyddu'r cosbau uchaf presennol ar gyfer y troseddau penodol hyn. Yn ei hanfod, mae hyn yn atgynhyrchu'r ymarfer a'r canllawiau ar ddedfrydu presennol ar gyfer troseddau a gyflawnir yn erbyn gweithwyr y sector cyhoeddus.
6. Bydd hefyd yn ymestyn pwerau'r heddlu i gymryd samplau gwaed gyda chydysyniad, a samplau heb fod o natur bersonol heb gydsyniad, oddi wrth unigolion sy'n ymosod ar weithwyr y gwasanaethau bryd a phan fo gan

Arolygydd sail resymol dros gredu bod y gweithiwr gwasanaethau brys wedi bod yn agored i'r perygl o drosglwyddiad clefyd heintus. Bwriad y cynnig hwn yw lleihau nifer y gweithwyr gwasanaethau brys sy'n gorfod cael profion gwaed eu hunain, cymryd meddyginiaethau proffylactig yn ddiangen a rhoi mwy o sicrwydd, a hynny yn gyflymach, i weithwyr y gwasanaethau brys ynghylch a ydynt wedi dal clefyd heintus ai peidio.

## **Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

### 7. Cymal 1 Ymosodiad Cyffredin a Churo

Mae'r cymal hwn yn creu trosedd neillfordd newydd o ymosodiad neu guro a gyflawnir yn erbyn gweithiwr y gwasanaethau brys gyda chosb uchaf wedi'i chynyddu pan geir treial ar ddiad.

### 8. Cymal 2 Ffactor Gwaethygol

Mae'r cymal hwn yn creu ffactor gwaethygol statudol ar ddedfrydu yn achos rhestr o droseddau penodol a gyflawnir yn erbyn gweithiwr y gwasanaethau brys wrth arfer ei swyddogaethau fel gweithiwr y gwasanaethau brys. Rhaid i statws gweithiwr y gwasanaethau brys gael ei ystyried gan y llys fel ffactor sy'n cynyddu difrifoldeb trosedd benodol ac, o ganlyniad felly, lymder y ddedfryd a roddir ar gyfer y trosedd honno.

### 9. Cymal 3 Ystyr 'gweithiwr y gwasanaethau brys'

Mae'n diffinio gweithiwr y gwasanaethau brys at ddibenion cymalau 1 a 2 i gynnwys gweithwyr mewn meysydd sydd wedi'u datganoli, yn ogystal â meysydd heb eu datganoli.

*Gweithwyr mewn meysydd gwasanaeth sydd wedi'u datganoli*

- Gweithwyr y gwasanaeth tân
- Gweithwyr y gwasanaeth achub
- Gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) (a'r rheini sy'n darparu gwasanaethau sy'n cefnogi darpariaeth gwasanaeth iechyd y GIG) mewn swyddi sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd

*Gweithwyr mewn meysydd gwasanaeth heb eu datganoli*

- Yr heddlu
- Swyddogion yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
- Swyddogion carchardai a'r ddalfa

### 10. Cymalau 4 – 6 Cymryd samplau

Mae'r cymalau hyn yn darparu fel bod modd cymryd samplau gan y rheini sydd wedi ymosod ar weithiwr y gwasanaethau brys, pan fo arolygydd yr heddlu yn ystyried bod sail resymol dros gredu bod y gweithiwr hwnnw wedi bod yn agored i risg o drosglwyddiad clefyd heintus (ee pan fo'r

gweithiwr wedi cael ei gnoi, neu os bydd rhywun wedi poeri ar y gweithiwr). Eu diben, fel a nodwyd yn y Nodiadau Esboniadol, yw galluogi gweithwyr y gwasanaethau brys yr ymosodwyd arnynt i gael gwybod yn gyflym, a chyda chryn sicrwydd, a ydynt mewn perygl o ddal clefyd heintus fel bod modd iddynt (os oes perygl) gymryd y feddyginiaeth briodol i'w daclo ac osgoi heintio eu ffrindiau a'u teuluoedd; ac (os nad oes perygl) er mwyn osgoi peri iddynt unrhyw drallod neu ofid.

11. Mae'n ofynnol cael cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn oherwydd eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â (i) gwasanaethau tân ac achub; (ii) darparu gwasanaethau iechyd; ac (iii) atal, trin a lleddfu clefydau o dan baragraffau 7 a 9 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### **Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Ymosodiadau ar Weithwyr y Gwasanaethau Brys (Troseddau)**

12. Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil y DU hwn at ddibenion amseru a chydlynu. Mae darpariaethau'r Bil hwn yn cydweddu'n dda ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru ynghylch diogelu gweithwyr y gwasanaethau brys. Bydd symud ymlaen â'r darpariaethau yn y Bil y DU hwn yn golygu bod gweithwyr y gwasanaethau brys mewn gwasanaethau sydd wedi'u datganoli yng Nghymru yn cael yr un lefel o ddiogelwch ar yr un pryd â'r rheini yn Lloegr.

### **Y Goblygiadau Ariannol**

13. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol ychwanegol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil hwn.

### **Casgliadau**

14. Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil y DU hwn gan mai dyna'r dull deddfu mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys yng Nghymru.

### **Vaughan Gething AC**

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Rhagfyr 2017**